OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2901

# Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

## RHAN 2

## Absenoldeb newydd-anedig

**Amodau rhagnodedig**

**9.**—(1) At ddibenion adran 25(1) o'r Mesur, yr amodau rhagnodedig yw bod yr aelod—

(a) naill ai—

(i) yn dad i'r plentyn ac yn gyfrifol am fagu'r plentyn, neu'n disgwyl bod â chyfrifoldeb o'r fath; neu

(ii) yn briod â mam y plentyn, yn bartner sifil iddi neu'n bartner iddi, ond heb fod yn dad i'r plentyn, ac yn bennaf gyfrifol (heblaw am unrhyw gyfrifoldeb ar y fam) am fagu'r plentyn, neu'n disgwyl bod â chyfrifoldeb o'r fath; a

(b) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o'r dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i'r cyfnod o absenoldeb newydd-anedig ddechrau.

(2) Mae aelod i'w drin fel pe bai'n bodloni'r amod ym mharagraff (1)(a)(ii) pe bai'r aelod hwnnw wedi bodloni'r amod heblaw am y ffaith bod mam y plentyn wedi marw.

(3) Mae aelod i'w drin fel pe bai'n bodloni'r naill amod neu'r llall ym mharagraff (1)(a) pe bai wedi bodloni'r amod heblaw am y ffaith bod y plentyn yn farw-anedig ar ôl 24 o wythnosau o feichiogrwydd neu wedi marw.

**Rhychwant yr hawl i absenoldeb newydd-anedig**

**10.**—(1) Mae gan aelod hawl i ddwy wythnos olynol o absenoldeb newydd-anedig.

(2) Pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i'r un beichiogrwydd, nid oes gan aelod yr hawl i absenoldeb newydd-anedig ond mewn perthynas â'r plentyn cyntaf-anedig.

**Pryd y caniateir cymryd absenoldeb newydd-anedig**

**11.** Ni chaniateir cymryd absenoldeb newydd-anedig ond os yw'n cael ei gymryd yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau ar ddyddiad geni'r plentyn; a

(b) sy'n dod i ben 56 o ddyddiau ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Diddymu absenoldeb newydd-anedig**

**12.** Caiff aelod ddiddymu cyfnod o absenoldeb newydd-anedig o dan yr amgylchiadau canlynol—

(a) nid yw'r cyfnod o absenoldeb newydd-anedig wedi dechrau hyd yn hyn; a

(b) mae'r aelod wedi hysbysu'r pennaeth gwasanaethau democrataidd yn ysgrifenedig o'i fwriad i ddiddymu'r absenoldeb.

**Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb newydd-anedig**

**13.** Ar yr amod y bydd y cyfnod o absenoldeb newydd-anedig yn dod i ben o fewn y cyfnod a ragnodir gan reoliad 11, caiff aelod ddewis ar ba ddyddiad y bydd ei absenoldeb newydd-anedig yn dechrau.